**Un diwrnod, ’aru Eurwen Benfelen fynd am dro i’r goedwig.**

**Mi oedd hi’n braf ac yn sych.**

**’Aru hi weld bwthyn bach yng nghanol y goedwig.**

**Yn y gegin ’aru hi weld tair powlen o uwd.**

**’Aru hi flasu un.  Ych a fi!  Rhy oer.**

**’Aru hi flasu un arall.  Rhy boeth.**

**’Aru hi flasu’r un ola.  Perffaith.**

**Ar ôl bita’r uwd, ’aru hi fynd i’r stafell wely.**

**’Aru hi eistedd ar un gwely.  Rhy galed.**

**’Aru hi eistedd ar un arall.  Rhy feddal.**

**’Aru hi eistedd ar y gwely ola.  Perffaith.**

**Mi oedd hi wedi blino, ac ’aru hi fynd i gysgu.**

**Am chwarter wedi un ar ddeg, ’aru’r tri arth ddŵad adref. ’Aru nhw weld yr uwd.**

---

**“Pwy sy’di bod yn blasu’n uwd i?” meddai Dadi Arth.**

---

**“A pwy sy’di bod yn blasu’n uwd i?” meddai Mami Arth.**

---

**“A pwy sy’di bita’n uwd i i gyd?” meddai Babi Arth.**

---

**’Aru nhw fynd i’r stafell wely.**

---

**“Pwy sy’di bod yn cysgu yn ’ngwely i?” meddai Dadi Arth.**

---

**“Pwy sy’di bod yn cysgu yn ’ngwely i?” meddai Mami Arth.**

---

**“A pwy sy’n dal i gysgu yn ’ngwely i?” meddai Babi Arth.**

---

**’Aru Eurwen ddeffro. Mi oedd hi’n ofnus iawn.**

---

**’Aru hi redeg i lawr y grisiau ac allan trwy’r drws.**

---

**’Aru hi redeg yr holl ffordd adre heb stopio. Mi oedd hi wedi blino.**

---

**’Aru hi ddim mynd i’r goedwig eto.**